

Rhan 5.5 - Protocol ynghylch Cysylltiadau rhwng Aelodau a Swyddogion

1 CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r protocol hwn yn adlewyrchu argymhellion y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus mewn perthynas â safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol. Yn arbennig, argymhellodd y Pwyllgor fod pob awdurdod lleol yn mabwysiadu Côt Ymddygiad ysgrifenedig ar gyfer ei aelodau a'i swyddogion. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu codau ymddygiad ar wahân ar gyfer aelodau a swyddogion sy'n ymgorffori'r darpariaethau gorfodol a geir mewn rheoliadau a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
- 1.2 Dylid darllen a defnyddio'r protocol hwn ochr yn ochr â'r Codau Ymddygiad hyn. Mae'r egwyddorion a'r gweithdrefnau a amlinellir yn y protocol hwn wedi'u sefydlu eisoes i raddau helaeth ac yn sylfaen i drefniadau gwaith y Cyngor. Pwrpas y protocol hwn yw cynnig cyfarwyddyd ar drefniadau gwaith rhwng aelodau a swyddogion, yn enwedig os bydd amheuaeth neu anhawster yn codi.
- 1.3 Yn arbennig, mae'r protocol yn anelu at gynnal gwelliannau mewn democratiaeth leol drwy:
 - 1.3.1 Hwyluso cyfranogaeth aelodau a swyddogion ym mhrosesau democrataidd y Cyngor;
 - 1.3.2 Cynorthwyo'r aelodau a'r swyddogion sy'n eu cynnal, yn eu rôl o gynrychioli'r gymuned, o fewn y Cyngor a'r tu allan; ac
 - 1.3.3 Egluro'r trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth a chymorth i aelodau a'u grwpiau gwleidyddol.
- 1.4 Bwriad arall y protocol hwn yw cynorthwyo aelodau a swyddogion i gynnal y safonau uchaf o ran gonestrwydd a gwedduster a sicrhau bod pobl eraill yn gweld bod eu holl weithredoedd yn briodol, yn deg a, lle bo modd, yn agored.
- 1.5 Mae'r detholiad canlynol o godau ymddygiad yr aelodau a'r swyddogion yn berthnasol:
 - 1.5.1 Rhaid i Aelodau beidio â gwneud dim a fydd yn peryglu, neu sy'n debygol o beryglu gallu gweithwyr yr awdurdod i fod yn ddiuedd.
 - 1.5.2 Mae parch yr aelodau a'r gweithwyr at ei gilydd yn hanfodol bwysig ar gyfer llywodraeth leol dda a dylai pob cydberthynas waith fod yn broffesiynol.
 - 1.5.3 Dylai gweithwyr ddelio â'r cyhoedd, yr aelodau a gweithwyr eraill â chydymdeimlad, yn effeithlon ac yn ddiuedd.

- 1.6 Yn unol â chyfeiriad y côd at "barch at ei gilydd", mae'n bwysig fod unrhyw drafodion gydag Aelodau a Swyddogion yn cynnal safonau rhesymol o gwrteisi a pharch gan y naill at y llall, ac ni ddylai'r naill na'r llall geisio manteisio'n annheg ar eu sefyllfa o dan unrhyw amgylchiadau.

2. CYFATHREBU RHWNG AELODAU A SWYDDOGION

- 2.1 Dylai Aelodau gyfathrebu â swyddogion ynghylch materion polisi a strategol ar y lefel briodol, a bydd hynny fel arfer yn cynnwys y Cyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth priodol, neu Uwch-reolwr arall.

Anogir yr Aelodau i gyfeirio ymholiadau ynghylch materion ward etholiadol at uned y gwasanaethau democrataidd, a fydd fel arfer yn darparu ymateb ysgrifenedig o fewn ychydig ddyddiau, a chyn pen 7 diwrnod gwaith, fan bellaf. Bydd hyn yn sicrhau bod materion yn cael eu cyfeirio'n uniongyrchol at y swyddog priodol, gan arbed adnoddau ac amser i'r aelod etholedig, gan na fydd rhaid iddo/iddi fynd ati i chwilio am ymateb yn bersonol. Proses fewnol yw hon ar gyfer Aelodau Etholedig Cyngor Sir Caerfyrddin yn unig, a disgwylir i Gynghorwyr roi gwybod i'w hetholwyr. Ni chaiff unrhyw gyfeiriadau e-bost cyhoeddus eu cynnwys yn y trywydd e-bost.

- 2.2 Wrth gyfathrebu ag aelodau, dylai swyddogion roi ystyriaeth i ofynion y protocol hwn ac unrhyw gyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan reolwyr eu hadran.

3. CYNGOR GAN SWYDDOGION I GRWPIAU GWLEIDYDDOL

- 3.1 Mae cydnabyddiaeth statudol i grwpiau gwleidyddol, ac mae'n arfer cyffredin i'r cyfryw grwpiau roi ystyriaeth ragarweiniol i faterion o blith busnes y Cyngor cyn i'r cyfryw faterion gael eu hystyried gan y Cyngor, y Cabinet neu'r Pwyllgor perthnasol. Gellir yn briodol alw ar Swyddogion i gefnogi a chyfrannu at drafodaethau o'r fath gan grwpiau gwleidyddol (cyhyd ag mai Cynghorwyr yr Awdurdod yn unig sy'n bresennol yn y cyfarfod).

- 3.2 Gall swyddogion gynnig cymorth ar sawl ffurf yn amrywio o gyfarfod paratoi gyda Chadeirydd neu Lefarydd cyn cyfarfod y Cyngor, Bwrdd Gweithredol neu Bwyllgor, i gyflwyniad ger bron cyfarfod o'r grŵp gwleidyddol llawn. Yn ymarferol, y mae'n debyg mai'r grŵp neu grwpiau gwleidyddol sy'n rheoli'r Cyngor fydd yn gofyn fwyaf am y cymorth hwn gan swyddogion ond y mae'r math hwn o gymorth ar gael i bob grŵp gwleidyddol.

- 3.3 Fodd bynnag, mae'n rhaid i bawb sy'n rhan o'r math hwn o broses, yn aelodau a swyddogion fel ei gilydd, ddeall rhai pwyntiau yn glir. Yn benodol,

- 3.3.1 O dan yr amgylchiadau hyn ni chaiff cymorth y swyddogion fynd ymhellach na chynnig gwybodaeth a chyngor ar faterion sy'n rhan o fusnes y Cyngor. Ni chaiff swyddogion gynnig cyngor ar faterion yn ymwneud â busnes y grŵp gwleidyddol. Bydd yn haws gwahaniaethu rhwng y ddau drwy beidio â disgwyl i swyddogion fod yn bresennol mewn cyfarfodydd neu rannau o gyfarfodydd pan drafodir busnes gwleidyddol.
- 3.3.2 Er bod cyfarfodydd y grwpiau gwleidyddol yn rhan o'r rhagymadrodd i benderfyniadau'r Cyngor, nid oes ganddynt y pŵer i wneud penderfyniadau ar ran y Cyngor. Felly nid yw casgliadau'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cyfrif fel penderfyniadau'r Cyngor ac y mae'n hanfodol bwysig nad ydynt yn cael eu cyfleu (y tu mewn neu'r tu allan i'r corff), na'u dehongli ac na weithredir arnynt fel petai statws swyddogol iddynt.
- 3.3.3 Yn yr un modd, lle bo swyddogion yn rhoi gwybodaeth a chyngor i gyfarfod o grŵp gwleidyddol ynghylch mater sy'n rhan o fusnes y Cyngor, ni all hynny ddigwydd yn lle darparu'r holl wybodaeth a chyngor angenrheidiol i'r Cabinet neu'r Pwyllgor perthnasol neu'r Cyngor pan fydd y mater dan sylw yn cael ei ystyried.
- 3.3.4 Ni fydd swyddogion yn rhoi gwybodaeth a chyngor i gyfarfod o grŵp gwleidyddol sy'n cynnwys unigolion nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor. Ni fydd y personau hyn yn ymrwmo i Gôd Ymddygiad yr Aelodau (yn arbennig, y rhannau sy'n ymwneud â datgelu buddiannau a chyfrinachedd) ac am y rheswm yma a rhesymau eraill hwyrach na fydd swyddogion yn medru cynnig yr un lefel o wybodaeth a chyngor ag y byddent mewn cyfarfod i aelodau yn unig.
- 3.3.5 Rhaid i swyddogion barchu cyfrinachedd trafodaethau'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y cyfarfodydd hyn ac, yn arbennig, ni ddylent ailadrodd cynnwys y cyfryw drafodaeth wrth grŵp gwleidyddol arall.
- 3.3.6 Rhaid gwneud unrhyw gais gan neu am swyddog i fynychu cyfarfod a drefnir gan blaid neu grŵp gwleidyddol, at ddiben cyflwyno gwybodaeth i'r cyfarfod (e.e. yng nghyswllt mater neu gynnig sy'n effeithio ar y Cyngor neu'n ymwneud ag ef) trwy'r Prif Weithredwr, a hynny drwy Arweinydd y grŵp gwleidyddol dan sylw. Bydd unrhyw swyddog sydd yn mynychu yn gwneud hynny mewn rôl swyddogol, yn gwleidyddol ddi-dduedd, ac ni fydd ei b/phresenoldeb yn arwydd o gefnogaeth i unrhyw farn gwleidyddol benodol, cynnig nac ymateb. Yn gyffredinol, dylid osgoi mynychu'r cyfryw gyfarfodydd yn y cyfnod rhwng cyhoeddi a chanlyniad terfynol unrhyw etholiad lleol neu seneddol sy'n effeithio ar yr ardal dan sylw.

- 3.3.7 Mewn cyfarfod cyhoeddus a drefnir gan grŵp gwleidyddol, neu gan Aelod unigol (yn hytrach na chan y Cyngor), bydd swyddogion yn bresennol er mwyn darparu gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd yn unig. Yn gyffredinol, osgoir trefnu bod swyddogion yn bresennol mewn cyfarfodydd o'r fath yn ystod unrhyw gyfnod "cyn-etholiad" (rhwng cyhoeddi a chanlyniad terfynol unrhyw etholiad lleol neu seneddol sy'n effeithio ar yr ardal leol). Dylid codi unrhyw anhawster penodol neu ansicrwydd ynghylch cyngor swyddogion i grwpiau gwleidyddol gyda'r Prif Weithredwr neu'r Swyddog Monitro a fydd, lle bo hynny'n briodol, yn trafod y mater gydag Arweinydd(ion) y Grŵp dan sylw.

4. GWASANAETHAU CYMORTH A CHYFLEUSTERAU AR GYFER AELODAU A GRWPIAU GWLEIDYDDOL

Yr unig sail gyfreithiol ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth a chyfleusterau gan y Cyngor (e.e. cyfarpar cyfrifiadurol, deunydd ysgrifennu, teipio, argraffu, llungopïo, ystafelloedd cyfarfod, cludiant a threfniadau llety ac ati) i'r Aelodau yw er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni eu gwaith fel Aelodau o'r Cyngor. Ac eithrio'r trefniadau a wneir mewn polisiau eraill a gytunwyd gan y Cyngor, rhaid defnyddio'r gwasanaethau cymorth a'r chyfleusterau hyn at waith y Cyngor yn unig.

Ni ddylid byth eu defnyddio mewn cysylltiad â gweithgaredd ymgyrchu ar ran plaid wleidyddol, nac i gefnogi sefydliadau lleol neu eraill, unigolion, nac at ddibenion preifat.

5. MYNEDIAD AELODAU I WYBODAETH A DOGFENNAU'R CYNGOR

- 5.1 Caiff aelodau ofyn i adran am wybodaeth, esboniad neu gyngor ynghylch swyddogaeth yr adran honno y byddai ei hangen yn rhesymol arnynt i'w cynorthwyo yn eu rôl fel aelodau o'r Cyngor. Gall hyn amrywio o gais am wybodaeth gyffredinol am ryw agwedd ar waith yr adran i gais am wybodaeth benodol ar ran etholwr. *Anogir yr Aelodau i gyfeirio ymholiadau o'r fath at uned y gwasanaethau democrataidd, a fydd fel arfer yn darparu ymateb ysgrifenedig o fewn ychydig ddyddiau, a chyn pen 7 niwrnod gwaith, fan bellaf. Bydd hyn yn sicrhau bod materion yn cael eu cyfeirio'n uniongyrchol at y swyddog priodol, gan arbed adnoddau ac amser i'r aelod etholedig, gan na fydd rhaid iddo/iddi fynd ati i chwilio am ymateb yn bersonol.*
- 5.2 Mae hawl gyfreithiol aelodau i weld dogfennau'r Cyngor yn deillio'n rhannol o statud ac yn rhannol o gyfraith gwlad (penderfyniadau barnwrol).
- 5.3 Mae gan aelodau hawl statudol i weld unrhyw ddogfen o eiddo'r Cyngor sy'n cynnwys deunydd yn ymwneud â busnes a drafodir yng nghyfarfod y Cyngor, Pwyllgor, y Cabinet neu gyfarfod Aelod o'r Cabinet er mwyn gwneud penderfyniadau gweithredol. Mae'r hawl hon yn berthnasol p'un a yw'r aelod yn aelod o'r pwyllgor gwneud penderfyniadau dan sylw ai peidio ac y mae'n cynnwys nid yn unig yr adroddiadau sydd i'w cyflwyno yn y cyfarfod, ond hefyd unrhyw bapurau cefndir perthnasol. Nid oes ganddynt yr un hawl i weld dogfennau yn ymwneud ag eitemau penodol a ddynodir yn eitemau eithriedig ar agenda unrhyw gyfarfod. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys gwybodaeth nas cyhoeddir (yn ôl y statud) oherwydd, er enghraifft, ei bod yn ymwneud â neu'n cyfeirio at weithwyr, pobl sy'n byw yn nhai'r cyngor, pobl sy'n gwneud cais am grantiau neu wasanaethau eraill, gofal plant, telerau arfaethedig ar gyfer contract neu drafodaethau contract neu wybodaeth arall sy'n fasnachol sensitif, trafodaethau ynghylch cysylltiadau diwydiannol, cyngor gyfreithiol neu achosion gyfreithiol.

- 5.4 Mae hawl deddf gwlad yr aelodau yn llawer ehangach, ac wedi ei seilio ar yr egwyddor bod gan unrhyw aelod hawl prima facie i archwilio dogfennau'r Cyngor, cyhyd â bod iddo/iddi gael mynediad at y dogfennau yn rhesymol angenrheidiol i alluogi'r aelod i gyflawni ei (d)dyletswyddau yn briodol fel aelod o'r Cyngor. Yr enw cyffredin ar yr egwyddor hon yw egwyddor "angen gwybod".
- 5.5 Mae hawl aelod, mewn unrhyw achos penodol, i arfer yr hawl hon o dan gyfraith gwlad yn dibynnu felly ar ei (g)allu i brofi bod "angen iddo/iddi wybod". Yn hyn o beth nid oes hawl gan yr aelod chwilota ymhlith dogfennau'r Cyngor a'u darllen. Nid yw chwilfrydedd yn ddigon ynddo'i hun. Y cwestiwn hanfodol yw a oes 'angen gwybod' er mwyn i'r aelod fedru gwneud ei (d)dyletswyddau cyhoeddus. Cyfarwyddwr yr adran sy'n berchen ar y ddogfen dan sylw (gyda chynghor gan y Swyddog Monitro) fydd yn penderfynu gyntaf a oes angen iddo/iddi wybod. Os cyfyd anghytundeb, gellir cyfeirio'r cwestiwn at yr Aelod(au) o'r Cabinet a'r Cyfarwyddwr sy'n gyfrifol am y swyddogaeth neu'r diben y cedwir y ddogfen ar eu cyfer ar gyfer penderfyniad, eto gyda chynghor cyfreithiol gan y Swyddog Monitro.
- 5.6 O dan rai amgylchiadau e.e. os bydd aelod o bwyllgor yn dymuno archwilio dogfen nau yn ymwneud â swyddogaethau'r pwyllgor, cymerir yn ganiataol bod "angen i'r aelod wybod". O dan amgylchiadau eraill (e.e. aelod sy'n dymuno archwilio dogfennau sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol am drydydd parti) disgwylir fel arfer i'r aelod gynnig cyfiawnhad penodol dros wneud y cyfryw gais.
- 5.7 Er bod y term "dogfennau'r Cyngor" yn eang iawn ac yn cynnwys, er enghraifft, unrhyw ddogfen a gynhyrchwyd ym mha fodd bynnag ag adnoddau'r Cyngor, derbynnir fel mater o gonfensiwn na fydd "angen gwybod" yn achos aelod o un grŵp gwleidyddol, ac felly na fydd ganddo/ganddi hawl i archwilio dogfen sy'n rhan o drafodion mewnol grŵp gwleidyddol arall.
- 5.8 Mae cyngor pellach a manylach ynghylch hawl yr aelodau i archwilio dogfennau'r Cyngor ar gael oddi wrth y Swyddog Monitro.
- 5.9 Yn olaf, rhaid i wybodaeth o eiddo'r Cyngor a roddir i aelod gael ei defnyddio gan yr aelod hwnnw at y diben y darparwyd y wybodaeth yn unig; hynny yw, er mwyn galluogi'r aelod i gyflawni ei ddyletswyddau fel cynghorydd yn unig. Mae Côt Ymddygiad yr Aelodau'n pwysleisio'r pwynt hwn fel a ganlyn:

"Rhaid i Aelodau:

- (a) beidio â datgelu gwybodaeth a roddir iddynt yn gyfrinachol, heb dderbyn caniatâd penodol gan rywun sydd ag awdurdod i roi'r cyfryw ganiatâd, neu oni bai bod y gyfraith yn gofyn eu bod yn gwneud hynny;
- (b) beidio ag atal neb rhag cael mynediad at wybodaeth y mae gan y person hwnnw hawl i'w derbyn yn ôl y gyfraith."

6. PERTHNASOEDD RHWNG SWYDDOGION / CADEIRYDDION / AELODAU O'R CABINET

- (a) Mae'n amlwg yn bwysig bod perthynas waith agos rhwng yr Aelodau o'r Cabinet, Cadeiryddion Pwyllgorau a Chyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaeth ac uwch swyddogion eraill mewn unrhyw adran sy'n paratoi adroddiadau ar gyfer pwyllgorau. Fodd bynnag ni ddylid caniatáu i'r cyfryw berthnasoedd fod mor agos, neu ymddangos mor agos, fel bod amheuaeth ynghylch gallu'r swyddog i ymdrin yn ddiduedd ag aelodau eraill a grwpiau gwleidyddol eraill neu ag unigolyn neu gorff arall.
- (b) Er y gellir ymgynghori'n gyson ag Aelod o'r Cabinet neu Gadeirydd fel rhan o'r broses o lunio agenda ar gyfer cyfarfod sydd i ddod, rhaid sylweddoli, o dan rai amgylchiadau, y gallai fod yn ofynnol cynnwys mater arbennig ar agenda fel rhan o drefn briodol y gwaith. Bydd Cyfarwyddwyr bob amser yn gwbl gyfrifol am gynnwys unrhyw adroddiad a gyflwynir yn eu henw. Os na all Aelod o'r Cabinet neu Gadeirydd a Chyfarwyddwr ddod i gytundeb ynghylch cynnwys eitem benodol ar yr agenda neu ynghylch cyflwyno adroddiad penodol, dylid cyfeirio'r mater at y Swyddog Monitro. Mae'n bosibl y bydd amgylchiadau'n codi hefyd pan fydd dyletswydd ar y Prif Weithredwr (yn rhinwedd ei swydd fel Pennaeth y Gwasanaeth Taledig) neu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cyllid statudol) neu'r Swyddog Monitro i gyflwyno adroddiad.
- (c) Rhaid cofio bod swyddogion mewn adran yn atebol i'w Cyfarwyddwr ac er y dylai swyddogion geisio cynnig cymorth bob amser i Aelod o'r Cabinet /Cadeirydd (neu unrhyw Aelod yn wir), wrth wneud hyn, ni ddylent gamu y tu hwnt i ffiniau'r awdurdod a roddwyd iddynt gan y Cyfarwyddwr. Dylid nodi hefyd bod cyfrifoldeb statudol ar y Prif Weithredwr, i sicrhau trefniadaeth a rheolaeth briodol ar staff y Cyngor, a bod cyfrifoldeb gyffredinol ganddo felly am gyfeiriad a rheolaeth yr holl swyddogion.

7. AELODAU A SWYDDOGION YN RHOI CYFRIF

- (a) O ran craffu ac adolygu penderfyniadau a wnaed, yn ogystal ag adolygu dogfennaeth, wrth gyflawni'r swyddogaeth craffu, gall Pwyllgor Craffu ei gwneud yn ofynnol i unrhyw aelod o'r Cabinet, Pennaeth y Gwasanaeth Taledig, a/neu unrhyw Brif Swyddog neu Bennaeth Gwasanaeth ddod o'i flaen i egluro mewn perthynas â materion o fewn eu cylch gorchwyl:
 - i. unrhyw benderfyniad arbennig neu gyfres o benderfyniadau;
 - ii. i ba raddau y mae'r camau a gymerwyd yn gweithredu polisi'r Cyngor; a/neu
 - iii. sut y cyflawnwyd eu dyletswyddau.

a dyletswydd y personau hynny yw mynychu os yw hynny'n ofynnol.

- (b) Lle bo gofyn i unrhyw swyddog fynychu cyfarfod o bwyllgor craffu o dan y ddarpariaeth benodol hon, bydd Cadeirydd y pwyllgor hwnnw yn hysbysu'r Prif Weithredwr a fydd yn hysbysu'r aelod neu'r swyddog yn ysgrifenedig gan roi o leiaf 15 diwrnod gwaith o rybudd o'r cyfarfod y mae gofyn ei fod/bod yn ei fynychu. Bydd y rhybudd yn nodi natur yr eitem y mae angen iddo ef/hi fynychu yn ei chylch i roi cyfrif a ph'un a oes angen cynhyrchu unrhyw bapurau ar gyfer y pwyllgor. Lle bydd y cyfrif i'w roi i'r pwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchu adroddiad, yna bydd y swyddog dan sylw yn cael digon o rybudd i ganiatáu ar gyfer paratoi'r ddogfennaeth honno, h.y. 15 diwrnod gwaith arall.
- (c) Lle na all yr aelod neu'r swyddog, o dan amgylchiadau eithriadol, fod yn bresennol ar y dyddiad dan sylw, rhaid i'r Pwyllgor Craffu drwy ymgynghori â'r aelod neu'r swyddog drefnu dyddiad cyfleus arall i fynychu. Wrth bennu'r dyddiadau bydd y Prif Weithredwr yn rhoi ystyriaeth i amgylchiadau eithriadol, er enghraifft, salwch neu wyliau sydd wedi'u cynllunio.
- (d) Dylid nodi nad yw rôl y Pwyllgor Craffu yn cynnwys y canlynol:
- i. Gweithredu fel gwrandawriad disgyblu yng nghyswllt gweithredoedd Swyddogion - y Prif Weithredwr yn unig sy'n cyflawni'r swyddogaeth honno yng nghyswllt staff; na
 - ii Bod yn rhyw fath o 'lys apêl' mewn perthynas â phenderfyniadau, na chyflwyno cwynion gan unigolion (Cynghorwyr, Swyddogion neu aelodau o'r cyhoedd) - gan fod gweithdrefnau mewnol eraill ar gael i'r diben hwn - e.e. y weithdrefn gwynion gorfforaethol a gweithdrefnau allanol/statudol e.e. Ombwdsmon Llywodraeth Leol neu apêl i'r Llysoedd.

8. GOHEBIAETH

- 8.1 Fel arfer, ni ddylai gohebiaeth rhwng aelod unigol a swyddog, gan gynnwys negeseuon e-bost, gael ei chopïo (gan y Swyddog) a'i hanfon at aelod arall, ac eithrio fel y barno Cyfarwyddwr yr Adran unigol yn ddoeth, neu gyda chydysyniad yr aelodau dan sylw, lle bo hynny'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni gwaith yn briodol. O dan amgylchiadau eithriadol pan fo angen anfon copi o'r ohebiaeth at aelod arall, dylid esbonio hynny'n glir wrth yr aelod gwreiddiol. Hynny yw ni ddylid dosbarthu copiâu 'cudd' o'r ohebiaeth hon.
- 8.2 Fel arfer, dylid anfon llythyrau swyddogol ar ran y Cyngor yn enw'r swyddog priodol yn hytrach nag enw'r aelod. Gall fod yn briodol o dan rai amgylchiadau eithriadol (e.e. sylwadau i weinidog y llywodraeth neu ohebiaeth gydag Arweinydd awdurdod lleol arall) anfon llythyr yn enw Arweinydd y Cyngor. Dylai llythyron sydd, er enghraifft, yn creu ymrwymiad, yn cadarnhau neu'n gwadu atebolrwydd neu'n rhoi cyfarwyddiadau ar ran y Cyngor gael eu hanfon bob amser yn enw'r Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth priodol neu uwch swyddog arall.

9. CYHOEDDUSRWYDD A'R CYFRYNGAU

- 9.1 Ymdrinnir â chyswllt â'r cyfryngau ynghylch materion cysylltiedig â'r Cyngor, neu fusnes y Cyngor, gan gynnwys rhyddhau datganiadau i'r wasg, trwy Reolwr y Wasg yn Uned Gyfathrebu Adran y Prif Weithredwr.
- 9.2 Os bydd aelod yn siarad â'r cyfryngau heb ymgynghori'n gyntaf â'r Arweinydd neu Gynghorydd perthnasol y Cabinet neu Gadeirydd y Pwyllgor a/neu Reolwr y Wasg, bernir mai barn bersonol yr aelod a gyfleir.

10. PERTHNASOEDD PERSONOL

- 10.1 Ni ddylai'r un aelod na swyddog ganiatáu i gysylltiad neu berthynas bersonol rhyngddo ac aelod neu swyddog arall effeithio ar y modd y bydd yn cyflawni ei g/chyfrifoldebau swyddogol, nac yn gweithredu neu'n gwneud penderfyniadau ar ran y Cyngor. Bydd hyn yn cynnwys, er enghraifft, perthynas deuluol, rhannu'r un cartref, neu gysylltiad busnes. Dylai aelodau a swyddogion ystyried bob amser sut y byddai'r cyfryw berthynas neu gysylltiad yn cael ei (g)weld gan rywun o'r tu allan i'r Cyngor neu gan aelod neu swyddog arall a thrwy hynny osgoi creu argraff o ogwydd neu annhegwch.
- 10.2 Dylai swyddog sydd â chysylltiad personol neu berthynas ag aelod o'r Cyngor ddatgelu hynny mewn llythyr at ei Brif Swyddog.
- 10.3 Dylai Aelodau ystyried perthnasoedd neu gysylltiadau personol ag aelodau neu swyddogion eraill wrth benderfynu a oes angen cofrestru neu ddatgelu buddiant ariannol neu anariannol lle bo hynny'n briodol.

11. GWEITHIO GYDA CHYNGHORWYR WARDIAU

Pryd bynnag y bydd y Cyngor yn trefnu cyfarfod cyhoeddus er mwyn trafod mater lleol, dylid anfon gwahoddiad fel mater o drefn at bob aelod lleol sy'n cynrychioli'r ardaloedd hynny o'r Cyngor Sir y mae'r mater yn effeithio arnynt. Yn yr un modd, pryd bynnag y bydd y Cyngor yn ymgynghori mewn unrhyw fodd ynghylch materion lleol, dylid hysbysu'r aelodau lleol ar ddechrau'r broses ymgynghori.

12. CANLLAWIAU PELLACH

Os bydd ar unrhyw aelod o'r Cyngor angen cyfarwyddyd pellach ar y materion y cyfeirir atynt yn y protocol hwn neu ar fater tebyg neu gysylltiedig, dylent gysylltu â'r Prif Weithredwr neu'r Swyddog Monitro. Dylai unrhyw swyddog y mae angen cyfarwyddyd o'r fath arno/arni gyfeirio yn y lle cyntaf at ei R(h)eolwr Llinell, a fydd yn ymgynghori â'r uwch-reolwyr, ac yn sicrhau cyngor yn ôl y galw.